# YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

## Nodiadau ar Gyfer Ceisiadau gan Fyfyrwyr

1. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwrdd a'r canlynol:

   Derbynnir ceisiadau oddi wrth personau Cymreig sydd yn medru sicrhau'r amod a welir ym mharagraff (a) isod, ynghyd ag unrhyw **UN** o'r amodau (i – iii) a welir ym mharagraff (b).

   (a) Rhaid bod gan ymgeiswyr cyfeiriad parhaus yng Nghymru yn ystod y dair blynedd blaenorol cyn yr amser y cyflwynir y cais (noder: nid yw cyfeiriad coleg neu brifysgol yng Nghymru ynddo'i hun yn ddigon).

   (b) (i) Ymgeiswyr sydd wedi eu geni yng Nghymru
   (ii) Ymgeiswyr sydd ag un neu'r ddau o'u rhieni wedi eu geni yng Nghymru; a
   (iii) Ymgeiswyr sydd wedi treulio cyfnod sydd ddim yn llai na saith mlynedd fel disgybl neu fyfyriwr mewn unrhyw sefydliad(au) addysgol yng Nghymru.

2. Rhoddir ystyriaeth i geisiadau uwch-raddedigol yn unig, gan rhoi rhywfaint o flaenoriaeth i waith ymchwil.

3. Mewn pob achos arall mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau sy'n cyfateb i maint y ffioedd dysgu yn unig. Yn y mwyafrif o achosion telir grantiau ar y raddfa gyffredinol (£3,240 yn 2007/2008). Mae modd cyflwyno ceisiadau lle mae'r ffioedd yn uwch na hyn ond £7,000 yw'r uchafswm a delir gan yr Ymddiriedolaeth. Gall yr Ymddiriedolwyr ystyried ceisiadau am gostau cynnal mewn amgylchiadau arbennig iawn.

4. Nid yw'r Ymddiriedolaeth, ar unrhyw amod, yn ychwanegu tuag at grantiau a delir gan awdurdodau lleol a chynghorau ymchwil.

5. Y dyddiad cau ar gyfer cyrsiau sydd yn cychwyn yn Medi/Hydref mewn unrhyw flwyddyn (neu gyda dyddiad cychwyn hwyrach yn yr un flwyddyn academaidd) yw **30 Mehefin** cyn y dyddiad cychwyn. Mae ffurflenni cais ar gael o **1 Ebrill** ymlaen mewn unrhyw flwyddyn. Os yw'r myfyriwr yn disgwyl canlyniadau arholiadau (e.e. gradd) gellir, naill ai cyflwyno'r cais cyn daw y canlyniadau i law ***ac hysbysu'r Ymddiriedolaeth ohonynt yn hwyrach,*** neu cyflwyno'r cais ar ôl cael y canlyniadau.

6 Ar hyn o bryd **NID** yw'r Ymddiriedolaeth yn ystyried ceisiadau o'r mathau canlynol:

   (i) cyrsiau gradd cyntaf (gan gynnwys gradd '*intercalated*' mewn meddygaeth).
   (ii) cyrsiau mewn sefydliadau nad ydynt wedi'u dilysu gan Adran Addysg y Llywodraeth.
   (iii) graddau uwch pan fod gradd uwch gan y myfyriwr yn barod (nid yw hyn yn cau allan myfyrwyr sydd yn symud o radd Meistr i Ddoethuriaeth).
   (iv) Cyrsiau hyfforddiant mewn Cyfrifeg.
   (v) cymorth preifat (e.e. i fyfyrwyr cerdd).
   (vi) cyrsiau hyfforddi athrawon.
   (vii) cyrsiau hyfforddi mewn gwaith cymdeithasol.
   (viii) cyrsiau CPE yn y gyfraith (ond caniateir cyrsiau 'Legal Practice ').